Swansea University
Prifysgol Abertawe

# Prifysgol Abertawe

# Nodyn Cyfarwyddyd ar Reoli Gwastraff WMGN06 Cardbord

| | |
|---|---|
| **Awdur:** | Fiona Wheatley |
| **Cymeradwywyd gan:** | Fiona Abbott |
| **Dyddiad creu:** | 09/11/2018 |

| **Nodyn Cyfarwyddyd ar Reoli Gwastraff WMGN06 Cardbord** | |
|---|---|
| **Lleoliad Cynhyrchu** | Pob ardal |
| **EWC** | 20-01-01 |
| **Math** | Gwastraff a reolir |
| **Dull Gwaredu** | Didoli i'w ailgylchu |
| **Math o Fin/Fag** | Rhes o bedwar bin/Bag clir |

## Gofynion Dyletswydd Gofal

Dylai busnes neu gorff cyhoeddus sy'n cynhyrchu deunyddiau gwastraff gymhwyso'r hierarchaeth gwaredu gwastraff i'r holl ffrydiau er mwyn lleiafu maint y gwastraff sy'n cael ei anfon i'w waredu. Yn ymarferol, golyga hyn sicrhau bod yr holl wastraff yn cael ei ddidoli cyn ei waredu drwy'r ffrwd gywir.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddidoli ei gwastraff cyn ei waredu a chanolbwyntio ar ddidoli'r ffrydiau ailgylchu allweddol: caniau, papur, plastigion, bwyd a gwydr. Mae didoli deunyddiau cyn eu gwaredu yn gwella ansawdd y cynnyrch ailgylchu a hefyd mae'n cydymffurfio â Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011. Mae'r rheoliadau'n nodi bod rhaid casglu deunyddiau megis papur, metel, plastig a gwydr ar wahân i'w gilydd os oes angen annog ansawdd uchel deunyddiau sydd i'w hailgylchu.

Er bod hyn wedi'i ddosbarthu fel gwastraff nad yw'n beryglus, mae'n ofynnol yn gyfreithlon o dan y Rheoliadau Gwastraff Peryglus i ddidoli gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus a sicrhau bod yr holl wastraff wedi'i ddosbarthu'n gywir. Gall gwaredu gwastraff peryglus drwy'r ffrwd ar gyfer gwastraff dinesig cyffredinol yn anghywir arwain at gosbau cyfreithiol ac ariannol gan ddibynnu ar ba mor ddifrifol yw'r weithred o beidio â chydymffurfio.

Wrth brynu nifer uchel o nwyddau, dylai'r Brifysgol geisio lleihau maint y pecynnu cardbord a gynhyrchir drwy sicrhau, lle y bo modd, bod y cyflenwr (cyflenwyr) yn mynd â phecynnu gyda nhw pan fyddant yn dosbarthu nwyddau gan y bydd llawer o gyflenwyr yn destun Rheoliadau Gwastraff Pecynnu.

## Eitemau

Dylid rhoi cardbord yn y biniau ailgylchu 'Papur a Chardbord' yn unig (fel arfer yn rhan o resi o bedwar/ddau fin gwastraff safonol y Brifysgol).

Ni ddylid gwneud y canlynol o dan **unrhyw** amgylchiadau;

(a) rhoi bwyd neu hylifau yn y bin ailgylchu 'Papur a Chardbord'
(b) ni ddylid rhoi cwpanau coffi yn y bin 'Papur a Chardbord'. Gweler WMGN10 i gael arweiniad ar waredu cwpanau coffi

## Cyfarwyddiadau Gwaredu

### Mewnol

Dylid defnyddio rhes o bedwar/ddau fin metel sydd â chaeadau'n unig ar gyfer gwaredu papur/cerdyn. Rhoddir label "Cerdyn" ar yr holl gynwysyddion a bydd ganddynt fag clir. Ni ddylid defnyddio cynwysyddion personol/o dan eich desg mewn swyddfeydd gan fod hyn yn atal ailgylchu deunyddiau.

Ni ddylid rhoi cwpanau coffi neu hylif yn adran 'cardbord' y rhes o bedwar/ddau fin o dan unrhyw amgylchiadau.



Ffigur 1 – rhes o bedwar bin dan do Prifysgol Abertawe

Yn achos **symiau mawr** o wastraff cardbord i'w ailgylchu, defnyddiwch borth y [Ddesg Gymorth](). Peidiwch â gadael symiau mawr o wastraff cardbord mewn coridorau na rhoi symiau mawr o wastraff cardbord rhydd yn y biniau ailgylchu allanol.

### Biniau Allanol




Ffigur 2 – bin contractwr allanol Prifysgol Abertawe

Caiff bagiau bin clir a gesglir eu rhoi yn y biniau mwy dynodedig (wedi'u darparu gan y contractwr rheoli gwastraff), a leolir mewn cyfadeiladau ledled ystadau'r Brifysgol.

| |
|---|
| Peidiwch â rhoi cardbord rhydd yn y biniau olwynion ailgylchu allanol gan y bydd hyn yn llenwi'r bin yn rhy gyflym. Rhowch gardbord rhydd ar bwys y biniau, oni bai ei bod hi'n bwrw glaw. |
| **Cost waredu**<br><br>Mae'r gost o waredu'n cael ei hystyried fel rhan o ddarpariaeth gwasanaeth rheoli gwastraff y Brifysgol; felly, nid oes cost uniongyrchol i unigolion/Cyfadrannau/Unedau Gwasanaeth Proffesiynol. Fodd bynnag , gall unigolion leiafu'r gost a chyfrannu at nod y Brifysgol o gyflawni cyfradd o 63% o ran osgoi anfon gwastraff i safleoedd tirlenwi, neu droi gwastraff yn ynni, drwy sicrhau bod yr holl bapur a cherdyn yn cael eu gwaredu drwy'r biniau dynodedig. |
| **Labelu**<br><br>Gweler templed |
| **I gael rhagor o arweiniad, e-bostiwch estates-waste@abertawe.ac.uk** |


paper & cardboard
papur a chardbord